
# All Our HIDDEN GIFTS

## CANLLAW TRAFOD

"Cynddeiriog o dda.H *Melinda Salisbury*




9781406393095 • £7.99 • 14 mlwydd oed +

HGr im ,. gafaelgar a godidog.,,,.

*Deirdre Sullivan*

WALKER BOOKS

All Our
# HIDDEN GIFTS
Caroline O'Donoghue

## CANLLAW TRAFOD AR GYFER **WALKER BOOKS**

### YNGLŶN Â'R LLYFR

Mae *All Our Hidden Gifts* yn nofel gyfoes a digyfnewid, ac ynddi, mae hen becyn o gardiau tarot, merch sydd ar goll a mudiad crefyddol dirgel yn dod ynghlwm yn rhyfedd â bywyd Maeve Chambers, sy'n 16 mlwydd oed. Mae darlun byw o'r Iwerddon gyfoes a'i wrthdaro diwylliannol yn gefndir i ymdrechion Maeve i lywio ei gorffennol cywilyddus, y cyfeillgarwch sy'n datblygu, rhamant, a dawn mae hi newydd ei chanfod i drin y tarot a hud, wrth iddi geisio darganfod beth ddigwyddodd i'w chyn-ffrind gorau mewn gwirionedd.

### YNGLŶN Â'R AWDUR

Mae Caroline O'Donoghue yn newyddiadurwraig ac yn awdures. Mae hi wedi cyhoeddi dwy nofel i oedolion, sef *Promising Young Women* a*Scenes of a Graphic Nature*, mae ganddi golofn reolaidd yn yr *Irish Examiner*, ac mae hi wedi ysgrifennu i;r *Irish Independent*, *Glamour*, *Buzzfeed* a *Vice*, ymhlith eraill. Mae Caroline hefyd yn gyfrifol am bodlediad Sentimental Garbage, ac ynddo, mae hi'n adolygu llyfrau ffuglen masnachol gan ferched gydag awduron eraill. *All Our Hidden Gifts* yw ei nofel gyntaf i oedolion ifanc. Trowch at dudalen Twitter Carolin: @Czaroline

### CYFLWYNIAD CYFFREDINOL:

Yn *All Our Hidden Gifts,* ceir llawer o themâu a phynciau trafod, a gallai rhai ysgogi neu ennyn ymatebion cryf gan aelodau o'r grŵp. Mae crefydd, neo-baganiaeth ac arferion cyfrin, gwahaniaethu yn erbyn pobl LGBTQ, hiliaeth, cyltiau, hunan-niweidio, pobl sydd ar goll a thrais seiliedig ar hunaniaeth oll yn bresennol ac yn hollbwysig yn y llyfr. Mae'n hanfodol i aelodau'r grŵp deimlo y gallant fynegi eu hunain yn ddirwystr heb ofni dial neu wahaniaethu. Hefyd, yn achos yr aelodau y gallai rhai elfennau fod yn anodd neu'n amhosibl i'w trafod, dylid rhoi cymorth iddynt a rhyddid i ddewis trafod neu beidio. Os datgelir gwybodaeth bersonol sensitif neu os daw gwybodaeth o'r fath yn hysbys, dilynwch eich protocolau lleol ynghylch diogelu a sicrhewch fod cymorth digonol ar gael i'r aelodau.

### CWESTIYNAU I'W TRAFOD

#### Cychwyn arni:

Gofynnwch i aelodau'r grŵp beth yw eu barn am y llyfr. Pwy sydd wedi'i fwynhau? Unrhyw un heb ei fwynhau? A allant ymhelaethu eu hatebion? Mae'r llyfr yn cynnwys llawer o themâu a syniadau, a gellir trafod llawer ohonynt. A hoffai unrhyw un rannu unrhyw syniadau neu fyfyrdodau cychwynnol ynghylch beth maent wedi'i ddarllen?

1. **Tarot**

"'Tarot doesn't tell the future … [the cards] only help you analyse your present.'" – t. 28

"My relationship to the cards has changed. Something physical, something molecular has happened between us. *Us.*" – t. 133

Trafodwch gysyniad tarot yn y llyfr. Beth yw arwyddocâd y cardiau tarot i Maeve? Sut mae'r cardiau yn helpu'r cymeriadau i 'ddadansoddi' eu presennol? A ydynt yn helpu i gyflawni gwirioneddau? Neu gadarnhau beth mae cymeriadau eisoes yn ei wybod? A ydynt yn gwneud i bethau ddigwydd?

2. **Safbwynt**

"…sometimes frustration and rage surge through me, sparking out in ways I can't control." – t. 7

Mae O'Donoghue wedi ysgrifennu'r llyfr gan ddefnyddio person cyntaf yr amser presennol. Trafodwch effaith y penderfyniad hwn ar deimladau darllenwyr tuag at Maeve a chymeriadau eraill. A wnaeth safbwyntiau neu ganfyddiadau aelodau'r grŵp newid fel y gwnaeth rhai Maeve newid? Os felly, sut yn union? Sut allai'r llyfr fod wedi bod yn wahanol pe bai wedi'i ysgrifennu gan ddefnyddio trydydd person yr amser gorffennol (er enghraifft)?

3. **Ffeministiaeth a gwleidyddiaeth rhywedd**

"'A group of female servants, mothers, pleaded with their employers to send for the doctor and … well, they didn't. And the children died.'" – t. 220

"*Rosemary has a strong female energy, and is good for banishing negativity, protection.*" – t. 253

Trafodwch rôl ffeministiaeth a rhywedd yn y nofel. Ystyriwch y ffigyrau awdurdod amrywiol a chryfderau a gwendidau niferus cymeriadau gwahanol, gwrywaidd, benywaidd ac anneuaidd. Ym mha fodd caiff merched eu cyflwyno'n wahanol yn y nofel? Ystyriwch y gwahaniaethau o ran credoau, awdurdod a grym i ddylanwadu rhwng y Chwaer Assumpta, (Santes) Brigid, Maeve, ei chyd-ddisgyblion a'r Howsgiper.

4. **Disgwyliadau a chyflawniadau**

"It sticks, like song lyrics. Like poetry. Like feelings I already had but finally have a map for." – t. 30

Trafodwch y disgwyliadau sydd gan Maeve a chymeriadau eraill, neu ddisgwyliadau sydd wedi'u gorfodi arnynt, boed yn grefyddol, yn ddiwylliannol, yn ymwneud â normau rhywedd, yn rhywiol neu trwy oblygiad hil neu genedligrwydd. Sut mae'r diwylliant a'r gymuned yn y nofel yn effeithio ar sut mae cymeriadau yn eu hystyried hwy eu hunain ac yn ystyried eraill? Ym mha fodd mae cymeriadau yn darganfod doniau yn annibynnol ar y disgwyliadau hyn, neu o'u herwydd?

5. **'Neis' vs 'Da'**

"'Nice people … will smile and listen and say, 'Oh no, how terrible' when they hear a sad story. Good people do something about it.'" – t. 27

A yw Maeve yn gymeriad 'neis'? Neu a yw hi'n gymeriad da? Disgrifiwch y gwahaniaeth mae O'Donoghue yn ei gyfleu rhyngddynt. Beth yw safbwynt aelodau'r grŵp am y gwahaniaeth rhwng pobl dda  phobl ddrwg yn eu bywydau? A yw pob person da yn neis? A yw pob person neis yn dda? (Gallech ystyried cymeriad Aaron, a'i ymddangosiad ar raglen teledu ym mhennod 34.)

6. **Cydbwysedd**

"'Everything is balance, weights and counterweights. Like a see-saw, you know?'" – t. 197

"'*I see*, 'the host replies.' *And, in the interest of balance, we're also going to be hearing from a rep for Children of Brigid…*'" – t. 302

Mae thema cydbwysedd yn llifo trwy'r nofel. Trafodwch sut daw hyn i'r amlwg a sut mae O'Donoghue yn ymdrin â'r thema hon mewn ffyrdd gwahanol. Gallech ystyried hynny yn y nofel drwyddi draw - gan unioni'r anghydbwysedd mae Maeve a Lilly yn ei achosi - ond hefyd o ran elfennau unigol, er enghraifft, cymeriadau sy'n fodlon â hwy eu hunain, y syniad o gyfaddawdu rhwng awydd ac angen, bywyd a marwolaeth, hunanreolaeth a mympwy, aberthu a grym ac ati. Pa fathau eraill o gydbwysedd sydd yn y nofel? Beth sy'n ofynnol i sicrhau cydbwysedd? A yw cydbwysedd yn rhywbeth cadarnhaol bob amser yn y nofel?

7. **Hud vs Realaeth**

"'…all this stuff. The seeds were already planted, Maeve. They already existed.'" – t. 380

Yn dilyn y ddefod sy'n dod â Lily yn ôl, trafodwch beth sy'n newid ym myd y nofel. Beth mae grym Maeve wedi'i wneud? Beth mae heb ei wneud? I ba raddau y mae hud yn y llyfr yn ymwneud ag awydd neu rym i sicrhau newid, neu

8. **Hunaniaeth ddiwylliannol**

"'…the more I let myself just *exist*, the more fun it gets. So I try not to question it or label it. I'm trying to just see everything as … negotiable.'" – t. 206

"Everyone knows her. Black hair, white dress … Every culture you can think of has some version of the White Lady." – t 195

Mae cefndir cyfoes canfyddadwy materion cymdeithasol, gwleidyddiaeth, cymuned a chrefydd yn gyd-destun i'r nofel.

Mae rhai o'r elfennau hyn yn berthnasol i Iwerddon, ond gallai darllenwyr yn unrhyw ran o'r byd uniaethu â llawer o'r cynnwys. Mae'r nofel hefyd yn cynnwys ystod eang o hunaniaethau a mudiadau diwylliannol cymysg, yn cynnwys hunaniaethau a diwylliannau America, Iwerddon, Prydain, y Philipiniaid, Catholigion, Protestaniaid, paganiaid, pobl LGBTQ, cyltiau a'r goruwchnaturiol. Sut mae'r cysyniadau hunaniaethol hyn yn effeithio ar y nofel? A oes unrhyw elfennau tebyg yn perthyn i'r gwahanol ddiwylliannau sy'n cael eu cyfleu? Ym mha fodd maent yn achosi gwrthdaro, ac ym mha fodd maent yn dod ynghyd yn gytûn?

9. **Yr howsgiper**

"Everything around me feels like evidence of what a scruffy, scrubby little urchin I am. A bad housekeeper, and a bad friend." – t. 77

Beth mae'r Howsgiper yn ei gynrychioli yn y nofel? Beth yw gwaith 'howsgiper', a sut mae hyn yn ymwneud â'r cymeriad? A yw Maeve yn 'howsgiper wael'? Beth am 'ffrind gwael;? Trafodwch arwyddocâd y defnydd o'r pecyn cardiau Tarot gan O'Donoghue trwy gydol y nofel.

10. **Plant Brigid**

"'I dunno what kind of Ireland you came here for, but we're more or less done with the Bible-bashing bullshit.'" – t. 108

"It's funny how often I forget that divorce in Ireland is relatively new. We didn't get it until 1995, only ten years before I was born." – t. 313

Sut mae O'Donoghue yn portreadu realitioedd dod i oed yn yr Iwerddon gyfoes? Sut mae brwydrau cymdeithasol presennol yn cymharu â brwydrau cenedlaethau blaenorol, er enghraifft, cenhedlaeth Harriet Evans? Gallech ystyried 'pwy' oedd 'Brigid', gan gynnwys cysyniadau crefydd a goddefgarwch. Ym mha fodd mae'r brwydrau hyn yn gylchol, fel mae 'gwysio' Maeve yn adleisio gwysio Harriet? Sut maent yn unigryw i'w cyfnod? Ehangwch y drafodaeth i ystyried sut mae pob cenhedlaeth yn uniaethu â materion eu presennol ac yn deall y byd mewn perthynas â materion cenedlaethau blaenorol.